# GUTO ROBERTS yn datrys dirgelion
# PARRY-WILLIAMS A SONED EI DAD

**SON**
**(A response)**

**Blessed of the gods, — Ceridwen kissed thy brow;**
**Joy of my youth, pride of declining years;**
**Son, brother, friend, united in thee now,**
**Will brace my senile brain, dispel my fears.**
**My simple self in thee shall live again**
**A thousand times more brilliant and divine;**
**Cleansed of the dross, bred in my bones of pain,**
**Ascend to giddier heights whilst I decline.**
**Then from the blue serene turn to reflect**
**How knaves and pigmies wallow in the mire**
**Of worldly pomp, deceit, and cold neglect**
**Of honour, — source of every base desire.**
**Too flexible to break, too proud to bend,**
**Too dignified to fawn, — await the end.**

**FATHER**

---

MAE'N DDIAMAU y cofia aelodau hynaf *Cymdeithas Bob Owen* am y Wil Vaughan hoffus hwnnw a arferai anfon ei gyfraniadau 'O'r Gors' i'r *Cymro* yn ystod y pumdegau. 'Y Gors' oedd ei ddisgrifiad daearyddol o o'r ardal honno ar ffiniau Banff ar arfordir gogleddol yr Alban.

Geill yr actor Stewart Jones a minnau dystio i addasrwydd ei ddisgrifiad o'r lle gan i ni alw heibio i Wil a'r wraig fis Mehefin 1956 a threulio deuddydd yn eu cwmni.

*EI* gwmni a ddylwn ddweud gan mai mynd â ni efo'r motor-beic-a-seidcar, a alwai ef yn Phebi, i dafarn Bob MacTavish a wnaeth yn gyntaf oll a threuliwyd gweddill y noson, sef hyd doriad dydd, drwyn-drwyn yn ei gartref yn gwrando ar Wil yn dyfynnu o weithiau W. J. Gruffydd, a'r tri ohonom yn hel atgofion am ein dyddiau yn Ysgol Sir Porthmadog.

Aros gyda'i fodryb — a oedd yn athrawes ym Morfa Bychan — a wnâi Wil bryd hynny, ond â'i gartref yn y Bontnewydd ger Caernarfon. O'r fan honno yn gynharach yn y pumdegau yr arferai dreulio cyfran o'i amser, ar y Sadyrnau o leiaf, yn cynorthwyo J. R. Morris yn y siop lyfrau ail-law ar y Bont Bridd yng Nghaernarfon. Yno yr oedd o, fodd bynnag, un Sadwrn ym mis Mawrth 1953 pan elwais innau heibio.

* * * *

MYND YNO i browla'n gyffredinol ymysg y llyfrau a wneuthum i — ond efo'r bwriad o wario'r ychydig arian a gawswn yn anrheg pen-blwydd gan fy nghariad ar y pryd, ac mi ddewisais y gyfrol *Gwŷr Llên*, dan olygyddiaeth Aneirin Talfan Davies, a gawsai ei chyhoeddi yn 1948 gan W. Griffiths a'i Frodyr, Llundain, a'i hargraffu a'i rhwymo yn Swyddfa Argraffu 'The Cambrian News', Aberystwyth.

Wil Vaughan oedd y gŵr tu ôl i'r cownter y pnawn hwnnw, ond cyn derbyn y tâl, mi agorodd y llyfr. 'Aros,' meddai. 'Mae 'na ail argraffiad o hwn, ac mae hwnnw'n wahanol i'r cynta' — mae 'ma un copi yn fan'ma,' ac mi anelodd am ryw gornel oedd y tu ôl i'r cownter.

Hwnnw'n unig — yr ail argraffiad, Awst 1949 — a brynais i gan Wil Vaughan a hynny wedi iddo agor y ddwy gyfrol ar dudalen 183 a nodi'r gwasgaru a fu ar y llinellau yn argraffiad 1949 rhagor nag yn yr argraffiad cyntaf yn 1948.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach y tarewais i ar gopi o'r argraffiad cyntaf — ac mae o'n dal gennyf. Os try y sawl sydd ganddo gopi felly i'r dudalen a nodais o'r argraffiad cyntaf mi wêl fod o'r bumed llinell o ben y dudalen — ym mhle y mae John Eilian yn ymdrin â gweithiau R. Williams Parry — yn darllen fel hyn:

'. . . Yn yr unig ddernyn Saesneg o waith Robert Williams Parry a welais i erioed. Y mae'n sôn amdano'i hun fel hyn:

Of one who feels that only
death is true
And red the only colour . . .'

Meddai Wil Vaughan y pnawn hwnnw: 'Parri-Wilias bia'r cwpled yna ond bod J. O. Wilias wedi dwad o hyd iddo fo ymhlith papura' Wilias Parri ac wedi cymryd yn ganiataol 'i fod o'n un o'i weithia' fo.'

Dyna'r pum llinell a ddilewyd o'r ail argraffiad yn ogystal â'r aralleirio a geir yn y paragraff nesaf atynt — ond sydd hefyd, trwy amryfusedd, yn cynnwys rhai gwallau argraffu.

* * * *

'ROEDDWN I, bryn hynny, wedi clywed fod T. H. Parry-Williams wedi cyhoeddi casgliad o'i sonedau Saesneg, ond 'doeddwn i erioed wedi gweld y gyfrol. Mi wyddwn mai *Sonnets* oedd ei theitl, a dyna'r cwbl.

Yn 1978 y dois i o hyd iddi am y tro cyntaf, ac fel 'rhyw sylw wrth fynd heibio' megis mi ofynnais i'w pherchennog tybed a fuasai'n fodlon ei gwerthu. 'Gewch chi o,' meddai, 'wedi i mi gael rhyw gip arall arno fo.' Ac felly y bu — ond mi fynnais i dalu amdano pan elwais yno i'w gyrchu.

Mi wyddwn bryd hynny ei bod yn gyfrol brin iawn — a hyd heddiw tarawaf ar rai na wyddant ddim amdani.

Cyfrol sy'n cynnwys ugain o sonedau ydyw a'r gair SONNETS — a T. H. PARRY-WILLIAMS mewn llythrennau llawer manach odditano — ar y clawr. Mae SONNETS wedi ei argraffu mewn coch a (1919-1920) mewn du rhwng cromfachau, ar yr wyneb-ddalen; yn ogystal â T. H. PARRY-WILLIAMS a 1932.

*'Privately Printed'* sydd ar y dudalen nesaf, ac yna *'To the Memory of My Parents'* yn ei wynebu ar y trydydd tudalen. Mae'r *'Contents'* ar y pumed tudalen, a rhif y *'Page'* ar ôl pob teitl, fel hyn:



| | |
|---|---|
| ACCIDENT | 7 |
| THE HARE | 9 |
| THE WIRES | 11 |
| CHANGE | 13 |
| SOLACE | 15 |
| MIDNIGHT | 17 |
| RETURN | 19 |
| A RECORD | 21 |
| RED | 23 |
| DESIRE | 25 |
| BEDROCK | 27 |
| ESTRANGEMENT | 29 |
| THE ROAD-END | 31 |
| THE PIGEON | 33 |
| DUPLICITY | 35 |
| MURDER | 37 |
| TERROR | 39 |
| ANNWYL | 41 |
| MOTHER | 43 |
| FATHER | 45 |



Gwelwn fod y tudalennau wedi eu rhifo ar yn ail. Nid am fod rhagor na phedair llinell ar ddeg yn y sonedau chwaith! Un wyneb i dudalen yn unig a ddefnyddiwyd bob tro, a dyna'r eglurhad felly paham mae'r soned gyntaf 'ACCIDENT' ar dudalen 7 a'r ugeinfed soned i 'FATHER' ar dudalen 45. *'Printed by the Cambrian News (Aberystwyth) Ltd.'* a geir tua diwedd y gyfrol.

* * * *

GAN MAI gwaith T. H. Parry-Williams oedd fy hoff farddoniaeth bryd hynny (ac eto, ac a fydd!), gellir dychmygu fy llawenydd o gael perchenogi cyfrol arall o'i weithiau, ac wrth ei bodio'n garuaidd braidd mi sylwais fod yno nodyn byr yn ogystal â'r llofnod 'T. H. Parry-Williams, Mehefin 1932' ar y dudalen gyntaf un, a hwnnw'n darllen fel hyn:

*'Nid yw'r soned "Son" gan fy nhad, ond mewn ychydig bach o gopïau preifat iawn, ond yr wyf yn anturio anfon un o'r rheini i chwi, er ei bod yn bersonol iawn.'*

Euthum ati'n syth i astudio'r *'Contents'* a sylwi'n fuan iawn nad oedd sôn am 'Son' yn y fan honno, ond bod yno soned i 'Red' ar dudalen 23, ac mai o'r fan honno y daethai'r cwpled a welswn yn *Gwŷr Llên.* Bodio rhagor ar gyfrol Parry-Williams a chanfod fod yno, tu hwnt i dudalen 45, dudalen wedi cael ei rhifo yn 47, a choeliwch bellach, ar y tudalen hwnnw, mewn teip italaidd, 'roedd y soned 'Son'.

'Roedd gennyf dasg ychwanegol erbyn hyn, sef dod o hyd i gopi arall o'r *'Sonnets'* — i'w weld neu i'w brynu — a hynny'n unig er mwyn medru profi'n derfynol fod fy nghopi i o'r sonedau yn un arbennig iawn. Er holi a chwilio methwn â dod o hyd i'r naill fath na'r llall hyd y llynedd. A phryd hynny mi delais ragor na cheiniog a dimai amdano.

Mae gennyf ddau gopi twt o'r *'Sonnets'* erbyn hyn, ac mewn un ohonynt yn unig y gellir dod o hyd i'r 'soned "Son" gan fy nhad'. Ac fe welwch y soned honno ar dop yr ysgrif yma.

---

## YN EISIAU

*Copi o* Hanes Plwyf Llanegryn, *gan William Davies. Argraffwyd gan Hugh Evans a'i Feibion, Lerpwl. Cysylltwch â* **Carol Ann Jones, Nant Madryn, Llanegryn, Tywyn, Gwynedd LL36 9LN. Ffôn: (0654) 711322.**

Brut Dingestow, *golygwyd gan Henry Lewis, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1942.* **Richard Turner, 11 Hill Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1PL.**

*Hope Hewett:* Walking Through Merioneth. *Y Drenewydd, The Welsh Outlook Press, 1939. Hefyd copïau o'r llyfrau hyn o waith George Griffiths, 1812-83:* Charles the Second, an historical drama in five acts, *1867;* The Endowed Schools of England and Ireland, *1864;* The English Village, an old-man's tale of the castle of Quatfold, *1847;* The Free Schools and Endowments of Staffordshire . . ., *1859;* The Free Schools of Worcestershire . . ., *1852; Going to Markets and Grammar Schools . . ., 1870;* History of the free schools, colleges, hospitals and asylums of Birmingham . . ., *1861;* A Letter addressed to John Bull Junior . . ., *1850;* The Life and Adventures of G. Wilson . . ., *1854;* Ribbosford and other Poems, *1859 a 1868;* The Two Houses: a Staffordshire Tragedy, *1866.* **George W. Griffith, 8 Hinstock Road, Handsworth, Birmingham B20 2ET. Ffôn: 021 236 2288 a 021 554 7479.**